**Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol ar Ddigidol yng Nghymru – 22/06/2022**

Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddigidol yng Nghymru, a gynhaliwyd ar 22/06/2022 am 12:30pm ar Zoom.

| | | |
|---|---|---|
| Yn bresennol: | RhaI | Rhun ap Iorwerth (Cadeirydd – Aelod o'r Senedd dros Ynys Môn) |
| | PaRh | Pryderi ap Rhisiart (Ysgrifenyddiaeth – M-SParc) |
| | HR | Heledd Roberts (Swyddfa Rhun ap Iorwerth AS) |
| | JT | Jamie Thomas (M-SParc) |
| | ER | Emily Roberts (M-SParc) |
| | MC | Manon Cadwaladr (Cymen) |
| | RhP | Rhoslyn Prys (Meddal.com) |
| | DJ | Dewi Jones (Prifysgol Bangor) |
| | SG | Stefano Ghazzali (Prifysgol Bangor) |
| | JS | Jack Sargeant (Aelod o'r Senedd dros Alun a Glannau Dyfrdwy) |
| | NA | Natasha Ashgar (Aelod o'r Senedd dros Dde-ddwyrain Cymru) |
| | OD | Owen Derbyshire (S4C) |
| | AR | Aled Roberts (Cymen) |
| | DR | David Rees (Aelod o'r Senedd dros Aberafan) |
| | DC | Daniel Cunliffe (Prifysgol De Cymru) |
| | TB | Tom Burke (Haia) |
| | GD | Gareth Davies (Prifysgol Abertawe) |
| | PW | Peter Williams (Llywodraeth Cymru) |
| | JE | Jeremy Evas (Llywodraeth Cymru) |
| | RD | Ryland Doyle (Swyddfa Mike Hedges AS) |
| | IB | Ioan Bellin (swyddfa Rhys ab Owen) |
| | HY | Huw Ynyr (Cyngor Sir Gwynedd) |
| | ER | Ellie Richard |
| | GP | Gruffudd Prys |
| | GT | Gary Thompson |
| Ymddiheuriadau: | CT | Carolyn Thomas (Aelod o'r Senedd dros ogledd Cymru) |
| | LlG | Llyr Gruffydd (Aelod o'r Senedd dros ogledd Cymru) |

| **Eitem ar yr agenda** | **Cam i'w gymryd** |
|---|---|
| 1. Croeso a sesiwn agored.<br><br>Croesawodd RhAI bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys aelodau newydd. Nodwyd bod y grŵp yn fforwm drafod ar gyfer y sector digidol, er mwyn helpu i symud Cymru ymlaen ac ennill buddion cymunedol ac economaidd yn y sector digidol, gyda sgyrsiau'r sesiwn yma'n canolbwyntio ar faterion digidol o safbwynt y Gymraeg, a sut y gall Cymru fod yn arweinydd ym maes Technoleg Iaith. | |
| 2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac ethol Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth<br><br>Cyflwynodd JS a NA enwebiadau i ail-ethol RhAI fel Cadeirydd y grŵp ac M-SParc fel Ysgrifenyddiaeth, a derbyniwyd yr enwebiadau gan y grŵp heb wrthwynebiad. Bydd y ddau yn parhau yn eu rolau am y flwyddyn nesaf. | |
| 3. Dr Jeremy Evas, Cynllun Gweithredu Technoleg Llywodraeth Cymru<br><br>Dechreuodd JE ei gyflwyniad yn amlinellu nod Llywodraeth Cymru i ddyblu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ddefnyddio technoleg, a'r gwaith mae ef a'i dîm yn ei wneud yn y sector hwn. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru am alluogi technoleg iaith i gael ei datblygu ym mhob cyd- | |

| | |
|---|---|
| destun digidol er lles y Gymraeg: lleferydd, cyfieithu, deallusrwydd artiffisial ar gyfer sgwrsio, tra'n manylu ar yr her o ddatblygu technoleg sy'n gweithio llawn cystal yn Saesneg ag y mae yn y Gymraeg ac i'r gwrthwyneb. Trafododd JE sut mae cydrannau technoleg iaith sydd wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i gyd ar gael yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho a'u defnyddio, a bod hyn yn amod ar gyfer eu cyllido.<br><br>Maes ffocws i Lywodraeth Cymru yw ysgogi'r farchnad ar gyfer meddalwedd amlieithog gyda'r gobaith y gall y profiad o wneud hyn ar gyfer y Gymraeg helpu eraill hefyd, cyn cau ei gyflwyniad drwy drafod Hacathon sydd ar y gweill y mae Llywodraeth Cymru ac M-SParc wedi cydweithio arno i gefnogi arloesedd yn y sector. | |
| 4. Dewi Jones, yn cyflwyno ynghylch Uned y Gymraeg (Canolfan Bedwyr) ym Mhrifysgol Bangor<br><br>Bu DJ yn trafod cefndir Uned y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor a sut mae cod ffynhonnell agored yn rhan o'u harferion gwaith. Bu'n sôn am strwythur y tîm o fewn yr uned, gyda 13 aelod o'r tîm yn gweithio mewn dau grŵp ac yn edrych ar derminoleg, termau geiriadur a golygu, gyda'r grŵp arall yn gweithio ar ddatblygu technoleg iaith ac yn gwerthuso, ymchwilio a datblygu meddalwedd gydag amrywiaeth o fethodolegau.<br><br>Ychwanegodd DJ fod yr uned yn gwbl hunangynhaliol, heb unrhyw gyllid gan y brifysgol, a bod yr incwm yn cael ei ddarparu drwy gymysgedd o brosiectau tymor byr am dâl gydag amrywiaeth o randdeiliaid, ynghyd â nifer o gynhyrchion masnachol eu bod wedi eu datblygu eu hunain neu mewn partneriaeth â chwmnïau preifat, gydag allbynnau'n cynnwys rhai fel Cysill ac ap Geiriaduron. Dywedodd DJ mai gweledigaeth graidd yr uned yw normaleiddio ac adfywio'r Gymraeg, a'i bod eisiau gweithio gyda rhagor o bartneriaid i greu adnoddau Cymraeg ar gyfer defnydd o'r Gymraeg, gan wneud gwaith sy'n cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol. | |
| 5. Tom Burke, gyda chyflwyniad i Haia.live<br><br>Eglurodd TB fod Haia, a gafodd ei ddatblygu yn ystod y pandemig fel platfform cynadledda hybrid sy'n cyflenwi ar gyfer popeth, yn wasanaeth sy'n rhoi'r Gymraeg yn ganolog iddo. Ychwanegodd TB fod tirlun ieithyddol y Deyrnas Unedig yn 'ased' ac yn un y mae Haia wedi mwynhau ei chael fel ffocws ar gyfer yr hyn maent yn ei gynnig. Nododd TB fod Haia yn cydweithio â Chanolfan Bedwyr ar yr elfennau o'r platfform sy'n ymwneud â'r Gymraeg a chyfieithu, gan anfon at DJ a'r tîm lawer o ddata sydd wedi helpu i wella Haia, ond a allai hefyd helpu Canolfan Bedwyr yn y tymor hir hefyd. Mae TB yn gorffen drwy ddweud y byddai'n hoffi gweld Cymru yn dod yn ganolfan ar gyfer technoleg iaith arloesol. | |
| 6. Rhoslyn Prys; Meddal.com - Rôl codio ffynhonnell agored a'r Gymraeg<br><br>Nododd RhP pa mor rhyfeddol yw gweld y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y 25 mlynedd diwethaf yn y sector hwn, gan longyfarch eraill ar yr alwad am eu gwaith dros y cyfnod hwnnw. Ychwanegodd faint o gyfleoedd y mae codio ffynhonnell agored yn eu cynnig, a sut mae datblygwyr meddalwedd yn y maes hwn wedi croesawu'r Gymraeg fel rhywbeth y gallant weithio â hi oherwydd y gwaith sydd wedi'i wneud yn hyn o beth, gan ychwanegu ei fod yn sicr wedi codi proffil y Gymraeg ym myd meddalwedd, gan ei gwneud yn fwy tebygol bod cwmnïau masnachol yn ystyried cynnig fersiynau Cymraeg o'u meddalwedd. | |
| 7. Trafodaeth, unrhyw fusnes arall, a chloi | |

| | |
|---|---|
| Gofynnodd GT a oedd gan Haia gynlluniau i'w gwneud yn gwbl amlieithog fel platfform neu ai dim ond ar y Gymraeg i'r Saesneg ac i'r gwrthwyneb oedd y ffocws. Eglurodd TB fod cynnig gwasanaeth amlieithog yn sicr yn weledigaeth ar gyfer y tymor hir. Gofynnodd DR pa ganran o'r feddalwedd sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg sy'n feddalwedd ffynhonnell agored, ac ymatebodd DJ fod hyn yn anodd ei nodi, ond dywedodd fod y Gymraeg mewn sefyllfa eithaf cryf, gyda llawer o waith i'w wneud o hyd er mwyn gwireddu'r potensial llawn ar gyfer yr iaith. I gloi, ychwanegodd OD fod y syniad o gael Cymru yn gartref i dechnoleg iaith blaenllaw yn anhygoel ond bod angen i ni ddod o hyd i gyllid a gweledigaeth i wneud hynny, a bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol, a bod bygythiad i fodolaeth yr iaith ar y gorwel os nad oes modd rhoi'r amodau hynny ar waith.<br><br>Cadarnhaodd RhAI y byddai ef a'i dîm yn ceisio rhyddhau datganiad i'r wasg, gan gynnwys cyfraniadau gan y Grŵp, i'r perwyl hwnnw.<br><br><br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau. | |